



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nodyn Gwybodaeth Safleoedd Gwaredu yn Nyfroedd Cymru

Mae nifer o ardaloedd yn nyfroedd glannau Cymru wedi'u dynodi at ddiben derbyn deunydd wedi'i garthu, sy'n cynnwys carthu o waith cynnal a chadw a charthu cyfalaf yn bennaf. Mae nifer y safleoedd gwaredu dynodedig agored yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Gwaredu yn hanes y môr

Mae gwaredu deunydd gwastraff yn y môr wedi'i reoleiddio ers dechrau'r 1960au.

Ym 1974, cyflwynwyd y Ddeddf Dympio ar y Môr gan Lywodraeth y DU, y rheoleiddiwr ar y pryd oedd y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF).

Diddymwyd Deddf Dympio ar y Môr 1974 a'i disodli gan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 (FEPA). Roedd y ddwy Ddeddf yn gofyn am drwydded i waredu deunydd yn y môr. Y rheoleiddiwr ar gyfer FEPA oedd Llywodraeth y DU (MAFF, a ddaeth yn Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd yn ddiweddarach) nes i bwerau pellach dros yr amgylchedd morol gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2007. Cyhoeddwyd trwyddedau FEPA gan Lywodraeth Cymru hyd nes i FEPA gael ei ddiddymu a'i ddisodli gan drwyddedau morol a gyflwynwyd drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Llywodraeth Cymru oedd y rheoleiddiwr ar gyfer trwyddedu morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 hyd nes y dirprwywyd rhai swyddogaethau trwyddedu morol i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013 a Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2017.

Agorwyd safleoedd ar wahanol adegau mewn ymateb i geisiadau am weithgarwch gwaredu. Safleoedd agored yw'r rhai sydd wedi parhau i gael eu nodi fel rhai sy'n addas ar gyfer derbyn deunydd wedi'i garthu yn dilyn asesiad trylwyr a chadarn o bob cais newydd i'w waredu.

Rhwymedigaethau rheoleiddio cyfredol o ran gwaredu gwastraff yn y môr

Mae gwaredu deunydd a garthir yn y môr yn parhau i gael ei rheoleiddio o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 - trwyddedu morol.

Mae Adran 71 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol, megis y rhai sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff yn y môr o dan Gonfensiwn OSPAR a Chonfensiwn Llundain a Phrotocol Llundain, y mae'r DU yn Barti Contractio iddo. Cydymffurfir drwy asesu cais, gan gynnwys profi deunydd a rhoi neu wrthod trwydded forol ar ôl hynny.

Gan gydnabod pwysigrwydd gweithrediadau carthu a gwaredu er mwyn i longau teithio yn ddiogel i borthladdoedd, harborau a marinas ac oddi yno, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys polisi sy'n ymwneud yn benodol â gweithgareddau carthu a gwaredu.

Asesu cais am weithrediadau carthu a/neu waredu

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru fel y rheoleiddiwr ar gyfer trwyddedu morol, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn asesu addasrwydd cais i ddodi deunydd a garthir yn ôl yn y môr yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r rhwymedigaethau rhyngwladol. Er mwyn llywio'r asesiad o gais i garthu a/neu waredu deunydd, mae CNC yn ymgynghori ag ymgynghoreion technegol mewnol ac allanol, gan gynnwys Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd gwyddonol i CNC, a rhanddeiliaid allweddol.

Pan ymgynghorir â hwy ar geisiadau ac wrth roi cyngor i CNC, bydd Cefas yn cynnal gwerthusiad manwl o effeithiau'r gweithgaredd gwaredu arfaethedig ar yr amgylchedd morol, iechyd pobl a defnyddiau cyfreithlon eraill o'r moroedd sy'n cynnwys ystyried:

- lefel halogi'r deunydd sydd i'w garthu a'i waredu i'r safle;
- y symiau y mae'r safle gwaredu wedi'u derbyn o'r blaen (yn seiliedig bob blwyddyn ac os oes angen yn fisol);
- y swm a gymhwyswyd ar gyfer gwaredu (h.y. a all y safle gwaredu ddarparu ar gyfer y tunelli y gwnaed cais amdanynt, yn seiliedig ar farn arbenigol a chofnodion o weithrediadau gwaredu blaenorol ar y safle);
- os oes nifer o ddefnyddwyr ar y safle, nifer y trwyddedau a chyfanswm y tunelli trwyddedig presennol ar gyfer gwaredu er mwyn sicrhau y gall y safle ddarparu ar gyfer pob tunelli trwyddedig; a
- y math o ddeunydd sydd i'w adneuo h.y. os caiff y deunydd ei gyfuno gallai gronni ac achosi problem ar gyfer mordwyo drwy wneud safle yn fwy bas.

Fel rhan o'r broses asesu, bydd Cefas yn cynhyrchu cynllun samplu a dadansoddi gwaddodion ar ran CNC. Bydd y cynllun hwn yn cynghori ymgeiswyr ar leoliad, dull, nifer y samplau a'r mathau o ddadansoddiad cemegol a chorfforol sydd eu hangen i sicrhau y bydd y deunydd yn addas i'w waredu yn ôl yn y môr. Datblygir y cynlluniau sampl hyn gan roi sylw i ganllawiau OSPAR ar gyfer rheoli deunydd a garthwyd (OSPAR, 2014).

Yn dilyn ymgynghoriad ar gais am drwydded forol a fydd wedi'i lywio gan y gwaith samplu a dadansoddi gwaddodion a wnaed yn unol â chyngor CEFAS, bydd CNC yn pennu addasrwydd safle gwaredu arfaethedig, gan sicrhau nad yw'r deunydd a garthir a ddodir yn ymyrryd â defnyddiau cyfreithlon eraill o'r môr nac yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd morol neu iechyd pobl yn unol â gofynion Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Adnabod safleoedd gwaredu

Caiff safleoedd gwaredu eu nodi gan ymgeiswyr yn eu cais a all fod naill ai'n safle agored presennol neu'n safle newydd posibl. Bydd CNC yn penderfynu a yw'r safle gwaredu a nodwyd yn briodol ai peidio yn dilyn asesiad. Os na ellir dod o hyd i safle gwaredu priodol yna gellid nodweddu a dynodi safle gwaredu newydd. Byddai hyn fel arfer yn cael ei nodi yn ystod cyfnod cyn ymgeisio am y drwydded forol a gall y rhesymau gynnwys:

- nid oes unrhyw safleoedd gwaredu presennol y gall y prosiect eu defnyddio'n logistaidd;
- ni all safleoedd gwaredu presennol gymryd y math o ddeunydd a gaiff ei garthu; a/neu
- mae capasiti ar safle gwaredu presennol wedi'i gyrraedd.

Nodweddu safle gwaredu newydd

Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am nodweddu safle gwaredu newydd. Rhestrir y ffactorau allweddol a ystyriwyd wrth ddewis safle gwaredu yn y Canllawiau Penodol Diwygiedig ar gyfer Asesu Deunydd a Garthwyd (Sefydliad Morol Rhyngwladol, 2014) sy'n ategu Atodiad 2 Protocol 1996 (Protocol Llundain) (IMO, 2003), y rhain yw:

- nid oes unrhyw safleoedd gwaredu presennol y gall y prosiect eu defnyddio'n logistaidd;
- lleoliad amwynderau, ardaloedd gwarchoddedig, a defnyddiau eraill o'r môr yn yr ardal;
- nodweddion y golofn ddŵr a gwely'r môr mewn safleoedd gwaredu posibl;
- dichonoldeb economaidd a gweithredol trafndiaeth forol y deunydd i'r safle;
- maint y safle gwaredu: digon mawr i ddarparu ar gyfer y symiau parhaus a ragwelir o ddeunydd heb ddirywiad annerbyniol yn yr amgylchedd morol neu ymyrraeth â defnyddiau eraill o'r môr, ond yn ddigon bach ar gyfer monitro ymarferol;
- nodweddion y deunydd sydd i'w ddympio, gan gynnwys presenoldeb a symudedd halogyddion; a
- presenoldeb safleoedd gwaredu eraill yn y cyffiniau.

Unwaith y bydd safle gwaredu newydd posibl wedi'i nodweddu, bydd CNC yn cynnal ymgynghoriad â phartïon â diddordeb, yna mae'n gwneud gwerthusiad o'r wybodaeth nodweddu ac os yw'r gwerthusiad yn ffafriol, mae CNC yn dynodi'r safle fel un "agored".

Pryd mae safle'n cael ei ystyried ar gau

At ddibenion trwyddedu morol, mae safle gwaredu yn cael ei ystyried yn "segur" ar ôl cyfnod o 5 mlynedd heb ei ddefnyddio ac mae'n cael ei ystyried yn "gaeedig" ar ôl cyfnod o 10 mlynedd heb ei ddefnyddio.

Gall CNC hefyd gau safle am resymau eraill, megis tystiolaeth newydd o effeithiau posibl neu ddarparu ar gyfer gweithgaredd arall gyda chytundeb partion sy'n defnyddio'r safle gwaredu.

Rheoli a monitro safleoedd gwaredu

Fel rhan o'i rôl yn y DU o fewn OSPAR, mae Cefas yn cadw rhestr weithredol o'r holl safleoedd agored, caeedig neu segur yn nyfroedd y DU, gan ddyrannu cyfeirnod unigryw ar gyfer pob safle.

Mae CNC yn sicrhau bod safleoedd yn cael eu rheoli a'u monitro, lle bo angen at ddibenion cydymffurfio, drwy amodau ar y drwydded forol. Drwy amod trwydded, mae'n ofynnol i bob deiliad trwydded gyflwyno ffurflenni blynyddol i CNC ar y math o ddeunydd a waredwyd yn ystod y flwyddyn a faint o ddeunydd a waredwyd. Mae CNC yn darparu'r wybodaeth hon i Cefas i lywio dychweliad ehangach y DU i OSPAR.

Gan weithio mewn partneriaeth â CNC, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiadau lefel uchel strategol o'r holl safleoedd gwaredu agored yn nyfroedd Cymru bob 5 mlynedd. Bydd yr adolygiad hwn yn parhau i ddarparu tystiolaeth bellach ar sut mae safleoedd yn gweithio i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn parhau i gydymffurfio â gofynion OSPAR.